'Sdim Curo Plant!
Children are Unbeatable! Cymru

# 'Help wrth Law'

# Adroddiad gwerthuso rhaglen o weithgareddau yn hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio plant

Vikki Butler, Swyddog Ymchwil a Pholisi
Dr Sam Clutton, Swyddog Ymchwil a Pholisi
Barnardo's Cymru

Comisiynwyd gan 'Sdim Curo Plant!

Ariannwyd gan Gronfa Syniadau Newydd, Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| **Cydnabyddiaeth** | | 3 |
| **Crynodeb Gweithredol** | | 4 |
| **Adran 1:** | Cefndir ‘Sdim Curo Plant! | 7 |
| **Adran 2:** | Y Prosiect Ymchwil Gwerthusol | 8 |
| **Adran 3:** | Gweithgareddau a Digwyddiadau | 10 |
| **Adran 4:** | Canfyddiadau o’r Arolwg Cymunedol | 14 |
| **Adran 5:** | Canfyddiadau o’r Ysgolion: Plant a Phobl Ifanc lleol yn sôn am smacio | 16 |
| **Adran 6:** | Gwerthusiad o’r wythnos ‘Help Wrth Law’ | 19 |
| **Adran 7:** | Beth sy’n gweithio wrth hyrwyddo rhianta cadarnhaol a dewisidau heblaw smacio plant | 22 |
| **Adran 8:** | Casgliad | 28 |

| | | |
|---|---|---|
| **Atodiad 1:** | Arolwg Cymunedol | 29 |
| **Atodiad 2:** | Cyhoeddusrwydd i’r Wythnos Help wrth Law | 31 |
| **Atodiad 3:** | Rhaglen o Ddigwyddiadau | 32 |
| **Atodiad 4:** | Holiadur a ddefnyddiwyd mewn Ysgol Uwchradd | 34 |

# Cydnabyddiaeth

Hoffai SCP! Cymru ddiolch i Vikki Butler a Dr Sam Clutton o Barnado's Cymru a gynhaliodd yr holl waith ymchwil ac a ysgrifennodd yr adroddiad ar ran y gynghrair. Rydym am ddiolch hefyd i'r holl sefydliadau a fynychodd y cyfarfodydd cynllunio gr_p llywio Help wrth Law am eu gwaith caled ac am weithredu fel partneriaeth ar y cyd. Diolch i'r ymwelwyr iechyd lleol, Startwell, Barnardo's Cymru Gwasanaeth Mae Rhianta'n Bwysig Castell-nedd Port Talbot, Achub y Plant, Cymunedau'n Gyntaf Gorllewin Llansawel a Canolfan Teulu NCH Llansawel am eu rhan wrth gyflwyno'r digwyddiadau yn ystod yr wythnos Help wrth Law. Estynnir diolch arbennig i Ganolfan Teulu NCH Llansawel a Chymunedau'n Gyntaf Gorllewin Llansawel am wneud llawer iawn o'r gwaith cynllunio, defnyddio eu hadeiladau trwy gydol yr wythnos weithgareddau a'u cyfraniad a'u cefnogaeth ymroddedig trwy gydol y gwaith o gyflwyno wythnos gweithgareddau Help wrth Law. Er gwaethaf y cynllunio a'r darparu, ni fedrai'r gwerthusiad hwn gael ei gynnal heb ddidwylledd a brwdfrydedd y rhieni y buom yn siarad â nhw. I'r diben hwn, diolchwn i'r holl rieni fu mor barod i rannu eu barn a'u profiadau yn ystod y gwaith ymchwil.

**'Sdim Curo Plant!**

# Crynodeb Gweithredol

Diben yr ymchwil gwerthuso oedd rhoi tystiolaeth o:

- Y ffyrdd mwyaf effeithiol i newid agweddau tuag at gosb gorfforol plant
- Y ffyrdd mwyaf effeithiol i roi cyngor a chefnogaeth ymarferol i rieni i wrthod cosbi corfforol a mabwysiadu ffyrdd eraill di-drais a chadarnhaol o reoli ymddygiad eu plant.

Rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyllid i dalu am gostau gwerthuso rhaglen o ddigwyddiadau yng Ngorllewin Llansawel. Canolbwyntiodd y digwyddiadau hyn ar gynnig cefnogaeth i rieni lleol i ganfod ffyrdd positif o reoli ymddygiad eu plant.

## Dulliau Gwerthuso

Defnyddiodd yr ymchwil wahanol ddulliau yn cynnwys holiadur cymunedol byr, cyfweliadau distrwythur gyda rhieni, grwpiau ffocws gyda rhieni yn mynychu grwpiau neu gyrsiau rhianta, a chyfweliadau rhannol strwythuredig gyda rhieni yn mynychu sesiynau galw i mewn yn ystod y rhaglen o ddigwyddiadau. Fe wnaethom hefyd gasglu data gan blant a phobl ifanc drwy holiadur byr a lenwyd gan ddisgyblion ysgol uwchradd a chyfweliad gr_p a hwyluswyd drwy bypedau gyda phlant ysgol gynradd. Fe wnaethom hwyluso gr_p ffocws a chyfweliadau lled-strwythuredig wyneb-i-wyneb gyda swyddogion proffesiynol yn ymwneud â chynllunio a chyflenwi’r digwyddiadau er mwyn cynorthwyo gyda gwerthuso’r broses.

## Canfyddiadau Allweddol

1. **Agweddau:** O’r arolwg nid yw mwyafrif y bobl yn y gymuned leol yn credu fod smacio plant yn ffordd effeithiol iawn o reoli ymddygiad plant. Tra credai'r mwyafrif (80%) y dylai plant fwynhau’r un amddiffyniad cyfreithiol rhag cael eu taro ag sydd gan oedolion, credai ychydig dros hanner (51%) fod gan rieni ‘hawl’ i smacio eu plant. Mae’r ymchwil yn awgrymu fod oedolion ond nid plant yn ystyried bod ‘taro’ a ‘smacio’ yn weithredoedd gwahanol.

2. **Cael gwybodaeth:** Dywedodd llawer o rieni na fyddent yn defnyddio llinell cyngor ffôn oherwydd nad ydynt yn adnabod y person sy’n ateb y galwad, ei bod yn anodd cadw rhifau yn gyfleus pan fyddwch eu hangen a’i bod yn  ddrud galw o ffôn symudol. Roedd consensws fod llyfrynnau un ai’n rhoi gormod neu rhy ychydig o wybodaeth i fod o ddefnydd ymarferol. Mae’n well gan rieni gyswllt wyneb-i-wyneb gyda rhywun y medrant adeiladu perthynas â hwy, ond teimlent fod mynediad i gefnogaeth weithiau’n dibynnu ar ba swyddog proffesiynol yr oeddent yn ymwneud â hwy a’u lefel sgiliau.

3. **Cefnogaeth i grwpiau penodol (e.e. rhieni BME, rhieni gydag anableddau):** Mae prinder o wasanaethau wedi eu targedu at grwpiau cymdeithasol penodol ac eithrio rhieni ifanc. I gysylltiadau teulu positif ddatblygu, mae angen i fwy o wasanaethau weithio’n benodol gyda rhieni ac yn gyffredinol weithredu’n fwy sensitif i chwalfa deuluol.

4. **Ystyriaethau ymarferol:** Mae angen i wasanaethau cefnogi rhieni un ai fod yn lleol iawn neu ddarparu cludiant di-dâl. Nid yw talu am gostau cludiant yn aml o help yn aml gan fod trafnidiaeth gyhoeddus ar fin nos ac mewn ardaloedd gwledig yn gyfyngedig. Dylai cefnogaeth fod â gofal plant di-dâl neu dalu am gostau gofal plant yn gysylltiedig.

5. **Cefnogaeth argyfwng:** Mae rhieni weithiau angen mynediad ar unwaith i gefnogaeth pan fo ymddygiad plant yn gwaethygu neu bwynt argyfwng yn y teulu neu yn yr ysgol.

6. **Defnyddioldeb cyrsiau:** Roedd rhieni’n unfrydol gadarnhaol am effaith cyrsiau ac yn glir bod eu mynychu yn rhoi sgiliau a hyder newydd iddynt yn eu gallu fel rhieni.

## Argymhellion Allweddol

1. **Cael y neges 'Dim Smacio' i'r brif ffrwd:** Un o'r prif wersi a ddysgwyd drwy'r rhaglen ddigwyddiadau yw y dylai dewisiadau heblaw smacio fod yn rhan gyfannol o ymarfer bob dydd yr holl swyddogion proffesiynol sy'n dod i gyswllt gyda theuluoedd.

2. **Anawsterau dod o hyd i gefnogaeth:** Mae mynediad i wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn dibynnu ar un ai fod mewn cyswllt gyda'r ymarferydd unigol 'iawn' neu ar sefyllfaoedd yn cyrraedd pwynt argyfwng. Dynododd rhieni fod rôl allweddol i'r ysgolion wrth fynd â'r agenda hyn ymlaen ar gyfer teuluoedd gyda phlant dros 5 a dynodwyd ymwelwyr iechyd fel ffynhonnell allweddol o gyngor a chefnogaeth yng nghyswllt plant dan bump. Fodd bynnag, mae angen rhoi hyfforddiant mewn rhianta positif i lawer o swyddogion proffesiynol i lefel safonol uwch.

3. **Gostwng stigma:** Mae rhieni'n teimlo eu bod yn rhieni gwael pan fo swyddog proffesiynol yn awgrymu eu bod angen cefnogaeth arbenigol. Mae termau megis cwrs rhianta neu raglen rhianta yn achosi mwy o stigmateiddio. Byddid yn gostwng stigma os oedd cefnogaeth ar gael yn fwy rhydd fel rhan o wasanaethau prif ffrwd ac os newidid terminoleg.

4. **Ni all y neges dim smacio sefyll fel mater ar wahân:** Dywedodd rhieni a oedd yn mynychu'r grwpiau rhianta nad ydynt yn smacio eu plant, ond yn ei chael yn anodd gwybod sut i ddelio'n effeithiol gydag ymddygiad negyddol eu plant. Dywedodd rhai o'r oedolion sydd o blaid smacio a oedd yn bresennol nad oedd smacio erioed wedi gwneud unrhyw ddrwg iddynt hwy fel plant. I fynd i'r afael â'r gwahanol farn hon, mae angen i neges dim smacio fod yn rhan o neges fwy am fanteision rhianta positif a chael ei gweithredu drwy gefnogaeth a gwasanaethau prif ffrwd sydd ar gael i bawb.

5. **Hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio plant:** Mae hyn yn golygu rhoi'r dulliau i'r rhieni y maent eu hangen i reoli ymddygiad plant cyn i bethau gyrraedd pwynt argyfwng. Mae angen i gefnogaeth ddod yn gynharach a bod yn fwy hygyrch. Dylai cyrchu cefnogaeth i ddatblygu sgiliau rhieni gael ei gyflwyno a'i ymarfer fel rhan bob dydd o fod yn rhiant.

# 1. Cefndir 'Sdim Curo Plant!

Sefydlwyd 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable!' (SCP!/CAU!) ym Medi 2000 fel rhan o gynghrair pedair gwlad. Mae Grŵp Strategaeth SCP! Cymru yn cynnwys cynrychiolwyr o Plant yng Nghymru, Swyddfa'r Comisiynydd Plant, Barnardo's Cymru, Achub y Plant, NCH Cymru, NSPCC, Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant, Cymdeithas Tai Hafan a Choleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant. Mae SCP Cymru wedi derbyn cefnogaeth gan dros 600 o asiantaethau a sefydliadau yng Nghymru a mwy na 350 o unigolion gan gynnwys ACau, ASau ac ASEau. Prif amcanion y gynghrair yw:

- Sicrhau'r un warchodaeth rhag ymosodiad i blant ag sydd i holl ddinasyddion eraill y Deyrnas Unedig trwy gael gwared â'r amddiffyniad cyfreithiol o 'gosb resymol' a ddefnyddir i gyfiawnhau ac esgusodi cosbi plant yn gorfforol

- Hyrwyddo dulliau cadarnhaol heb fod yn droseddol o reoli ymddygiad plant

Plant (hyd at 18 oed) yw'r unig ddinasyddion yn y DU y gellir eu taro yn gyfreithlon (ar sail 'cosb resymol' dan Adran 58 o Ddeddf Plant 2004). Ers Hydref 2002 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwrthwynebu'r defnydd o gosbi corfforol ('smacio') gan rieni fel dull derbyniol o ddisgyblu plant a hynny'n glir a phendant. Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r unig Lywodraeth yn y DG sydd wedi mabwysiadu'r safbwynt hwn ond nid oes ganddi'r grym deddfwriaethol i newid y gyfraith yn y cyswllt hwn. Mae Pwyllgor Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) wedi galw ddwywaith ar lywodraeth y DG i weithredu fel mater brys i newid y ddeddf a chynnal rhaglen o addysgu a chynghori'r cyhoedd a chefnogi rhieni.

# 2. Y Prosiect Ymchwil Gwerthusol

Yn ystod ail hanner 2005 cyflwynodd Grŵp Strategaeth SCP Cymru gynnig i Gronfa Syniadau Newydd Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal peth ymchwil gwerthusol. Nod y cynnig oedd darparu tystiolaeth fyddai’n dangos:

- Y ffyrdd mwyaf effeithiol o newid agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol
- Y ffyrdd mwyaf effeithiol o ddarparu cyngor a chefnogaeth ymarferol i rieni i wrthod cosbi corfforol ac i ddefnyddio ffyrdd eraill, cadarnhaol heb fod yn dreisgar o reoli ymddygiad eu plant

Bu’r cynnig hwn yn llwyddiannus a derbyniwyd arian i dalu costau’r ymchwil a rhannu’r canlyniadau. Cytunodd y sefydliadau sy’n cael eu cynrychioli ar y Grŵp Strategaeth i ddarparu rhaglen o ddigwyddiadau dros gyfnod penodol o amser mewn un gymuned yn Ne Cymru, ardal Gorllewin Llansawel ger Castell Nedd. Ffurfiwyd grŵp rheoli prosiect a daeth y sefydliadau lleol ymlaen i gynnig cyfrannu at gynllunio digwyddiadau a’r rhaglen.

Roedd y cyrff fu’n gyfrifol yn uniongyrchol am baratoi a darparu’r rhaglen o ddigwyddiadau yn cynnwys: Plant yng Nghymru, NCH Cymru, Barnardo’s Cymru, Achub y Plant, Tîm Cymunedau’n Gyntaf Gorllewin Llansawel, Startwell, Ymwelwyr Iechyd Bwrdd Iechyd Lleol Castell-nedd Port Talbot, y bartneriaeth trais domestig leol a Tai Hafan. Comisiynwyd Barnardo’s Cymru i gynnal yr ymchwil. Gwnaed darnau gwahanol o waith ymchwil mewn ysgolion lleol gan Achub y Plant ac mae gwybodaeth am y rhain wedi ei chynnwys yn yr adroddiad ymchwil hwn.

Mae **Gorllewin Llansawel** yn cynnwys 1,236 aelwyd, mae’n ardal breswyl yn bennaf ac mae’n cael ei gosod yn 53fed ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2005. Felly dynodwyd ardal Gorllewin Llansawel yn ardal Cymunedau’n Gyntaf. Mae gan yr ardal gyfran ychydig yn uwch o bobl dan 16 oed na’r awdurdod lleol (Castell-nedd Port Talbot) a Chymru a Lloegr. Mae tua thraean yr aelwydydd yn cynnwys plant dibynnol ac mae tua 10% o’r aelwydydd yn rhai un rhiant gyda phlant dibynnol.

## 2.1 Methodoleg

Diben yr ymchwil gwerthusol oedd asesu effaith ac effeithlonrwydd gwahanol weithgareddau a gynhaliwyd i baratoi ar gyfer yr wythnos ‘Help wrth Law’, yn ystod yr wythnos ac yn deillio o’r wythnos. Defnyddiwyd dull cymysg oedd yn cynnwys:

- Un holiadur cymunedol byr (gweler atodiad 1). Dosbarthwyd hwn trwy’r cylchlythyr ‘Cymunedau’n Gyntaf’ ym mis Mawrth (cyn yr wythnos weithgareddau) ac fe’i casglwyd trwy fannau casglu cymunedol a chasglu o ddrws i ddrws
- Cyfweliadau heb eu strwythuro â rhieni oedd yn ymweld â’r digwyddiad lansio
- Grwpiau ffocws gyda rhieni yn mynychu tri grŵp/cwrs rhianta yn ystod yr wythnos o ddigwyddiadau
- Cyfweliadau wyneb yn wyneb wedi eu strwythuro’n rhannol gyda rhieni yn mynychu sesiynau galw i mewn yn ystod yr wythnos o ddigwyddiadau
- Holiadur byr a lenwyd gan ddisgyblion ysgol uwchradd oedd yn cymryd rhan yn y cynllun treialu gwers Addysg Bersonol a Chymdeithasol gan SCP
- Cyfweliad grŵp a gynhaliwyd trwy gyfrwng pypedau gyda phlant ysgol gynradd
- Cyfweliadau wedi eu strwythuro’n rhannol gyda grwpiau ffocws ac wyneb yn wyneb â gweithwyr proffesiynol oedd yn ymwneud â chynllunio a darparu’r wythnos o weithgareddau
- Grwpiau ffocws gyda rhieni oedd yn mynychu’r cwrs blasu rhianta yn dilyn yr wythnos o weithgareddau

Crynhowyd yr holl ddata ansoddol â llaw ac fe’i dadansoddwyd yn themâu cyffredin fel roeddynt yn dod i’r golwg.

# 3. Gweithgareddau a Digwyddiadau

Canolbwynt yr ymyrraeth beilot oedd wythnos o ddigwyddiadau ym Mai 2006, ond gwnaed gwaith paratoi a chefnogi yn y cyfnod yn arwain at yr wythnos o ddigwyddiadau. Roedd y gweithgareddau a'r digwyddiadau yn canolbwyntio ar Orllewin Llansawel oherwydd ei bod yn ardal sy'n ward benodol gyda nifer o asiantaethau yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd ac mae yn sir Castell-nedd Port Talbot sydd â darpariaeth cefnogi rhieni sydd wedi ei hen sefydlu.

## 3.1 Gwaith Paratoadol: Sesiwn Hyfforddi

Yn Chwefror 2006, darparwyd sesiwn hyfforddi gan aelodau Grŵp Strategaeth SCP. Anelwyd y sesiwn at weithwyr proffesiynol lleol a fyddai'n ymwneud â chynllunio a darparu'r ymyrraeth beilot a rhieni a oedd eisoes yn ymwneud â'r gwasanaethau. Cynhaliwyd y sesiwn hyfforddi mewn canolfan gymunedol leol a darparwyd cludiant i'r rhieni fedru mynychu. Roedd y sesiynau hyfforddi yn cyflwyno golwg gyffredinol ar y ddeddfwriaeth a'r polisi perthnasol a thystiolaeth o waith ymchwil i'r rhai a gymerodd ran. Roedd y dystiolaeth yn cynnwys gwybodaeth am ba mor gyffredin yw 'smacio' a tharo plant, beth oedd plant wedi ei ddweud am gael eu taro neu eu curo a beth sydd wedi digwydd mewn rhannau eraill o Ewrop lle mae plant yn cael yr un warchodaeth gyfreithiol ag oedolion. Bu'r rhai fu'n cymryd rhan yn archwilio sefyllfaoedd unigol hefyd a fu o gymorth iddynt archwilio eu canfyddiadau eu hunain a'u gwerthoedd yng nghyswllt y materion dan sylw. Yn y ffordd hon roedd yr holl unigolion oedd yn ymwneud â darparu'r digwyddiadau a'r gweithgareddau yn glir am amcanion a nodau Cynghrair SCP a'r dystiolaeth y mae'r ymgyrch wedi ei seilio arni.

## 3.2 Gwaith Paratoadol: Cyhoeddusrwydd

Cynhyrchodd myfyrwyr marchnata yn UWIC beth deunyddiau ymgyrchu ar gyfer Grŵp Strategaeth SCP. Defnyddiwyd un ddelwedd poster oedd yn cynnwys graffig o law ar gyfer ei defnyddio yng Ngorllewin Llansawel (gweler atodiad 2). Cynhyrchodd tîm Cymunedau'n Gyntaf Gorllewin Llansawel 100 o bosteri a ddosbarthwyd i leoliadau lleol gan gynnwys canolfannau iechyd, siopau ac ysgolion. Gosodwyd rhaglen o ddigwyddiadau hefyd mewn lleoliadau allweddol yn y gymuned.

## 3.3 Gwaith Allestyn: Cyflwyniadau Cymunedol

Yn ystod y mis cyn yr wythnos o ddigwyddiadau, cyflwynodd aelodau o grŵp rheoli'r prosiect a rhieni gyflwyniadau yn amlinellu amcanion a nodau SCP Cymru a rhoi gwybodaeth am yr wythnos 'Help Wrth Law'. Gwnaed cyflwyniadau i brifathrawon ysgolion cynradd lleol a phrifathro ysgol uwchradd leol, swyddogion cymunedol yr heddlu, Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf, Fforwm Pensiynwyr ac i grŵp mam a'i phlentyn lleol. Ni werthuswyd y cyflwyniadau hyn yn drwyadl ond ceisiwyd adborth gan hwyluswyr parthed y trafodaethau a ddigwyddodd gydag aelodau o'r gymuned wedi'r cyflwyniadau. Trafodir y canfyddiadau hyn yn fanylach yn adran chwech yng nghyswllt llwyddiant yr wythnos 'Help Wrth Law'.

## 3.4 Ymchwil Allestyn: Arolwg Cymunedol

Dosbarthwyd arolwg cymunedol, gyda’r nod o ddarganfod agwedd y gymuned tuag at daro plant, i bob aelwyd yng Ngorllewin Llansawel gyda rhifyn Mawrth o gylchlythyr Cymunedau’n Gyntaf oedd yn cynnwys erthygl yn rhoi manylion am nodau Cynghrair SCP a’r digwyddiadau oedd ar y gweill yn lleol. Dosbarthwyd ail Arolwg Cymunedol gyda rhifyn Mehefin o’r cylchlythyr oedd yn cynnwys erthygl oedd yn rhoi adroddiad ar yr wythnos o ddigwyddiadau a chanfyddiadau’r arolwg cyntaf. Bwriad yr ail arolwg oedd cymharu canlyniadau’r arolwg cyntaf i weld a oedd yr wythnos ‘Help wrth Law’ wedi cael effaith ar agweddau’r gymuned leol tuag at smacio plant.  Gan na lwyddodd yr wythnos i ennyn diddordeb y gymuned leol nid oedd canlyniadau’r ail arolwg yn angenrheidiol ac felly ni wnaed gwaith olrhain ar yr ail arolwg ac ni chwblhawyd ef. Esbonnir hyn yn fanylach yn adran pedwar o’r adroddiad hwn.

## 3.5 Yr Wythnos Ddigwyddiadau: digwyddiad lansio ‘Help wrth Law’

Cynhaliwyd digwyddiad lansio ar 15 Mai 2006 yng Nghanolfan Deulu NCH Cymru, T_’r Gymuned, Llansawel.  Agorwyd y feithrinfa sydd ar y safle ar gyfer y digwyddiad gyda staff meithrinfa yno a gynigiodd weithgareddau chwarae, peintio wynebau, bal_ns ac ati i’r plant.  Darparwyd lluniaeth hefyd.  Lansiwyd y digwyddiad am 4pm er mwyn rhoi ystyriaeth i’r diwrnod ysgol.  Jane Hutt, AC a Gweinidog Plant y Cynulliad oedd y prif westai.  Roedd cynrychiolaeth yno o Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ac o’r cyngor lleol, Castell-nedd Port Talbot, a grŵp llywio SCP Cymru. Daeth nifer fawr o sefydliadau lleol yno yn ogystal â’r rhai sy’n ymwneud â Grŵp Strategaeth SCP. Llwyddodd yr ymchwilwyr i siarad â rhieni oedd yn mynychu’r lansiad mewn modd anffurfiol.

## 3.6 Yr Wythnos Ddigwyddiadau: Sesiynau Galw i Mewn

Trwy’r wythnos yn dechrau ar 15 Mai cynigiwyd sesiynau galw i mewn yng Nghanolfan Deulu NCH a Thŷ’r Gymuned (gwelir y rhaglen lawn o ddigwyddiadau yn atodiad 4). Ar bedwar bore (10am-12pm) cynigiwyd sesiynau galw i mewn i rieni plant iau i gynnig cyfleoedd i drafod rhianta positif. Darparwyd y sesiynau hyn gan NCH, Startwell ac Ymwelwyr Iechyd lleol.  Ar bedwar prynhawn (1pm-3pm) yn ystod yr wythnos darparwyd sesiynau galw i mewn gan staff y ganolfan deulu NCH ar gyfer rhieni plant iau.  Ar dair noson yn yr wythnos (5.30pm-7pm) darparwyd sesiynau galw i mewn i rieni plant yn eu harddegau gan gynnig ‘awgrymiadau a chyngor os ydyn nhw’n eich gyrru’n wallgo’ gan wasanaeth ‘Mae Rhianta’n Cyfrif’ Barnardo’s Cymru.

## 3.7 Yr Wythnos Ddigwyddiadau: Grwpiau Rhianta

Cyfarfu tri grŵp rhianta NCH sy’n bodoli yn y Ganolfan Deulu yn ystod yr wythnos o weithgareddau - grŵp rhianta hyderus, grŵp tadau a grŵp rhianta ‘rheoli ymddygiad’. Gofynnodd yr ymchwilwyr i’r rhieni am ganiatâd i eistedd a gwrando ar y sesiynau grŵp ac fe gafwyd caniatâd.  Ym mhob achos roedd yr hwyluswyr yn addasu’r neges ganolog o rianta positif a dewisiadau heblaw smacio plant i’r neges fwyaf addas i’r grŵp, gan drafod y problemau mewn ffordd anffurfiol, heb fod yn fygythiol nac yn feirniadol. Roedd

yn haws trafod y problemau hyn gan fod yr hwyluswyr eisoes wedi sefydlu perthynas â'r grwpiau. Yn union wedi'r sesiynau cynhaliodd yr ymchwilwyr grwpiau ffocws, a thrafodir y canlyniadau yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

- **Y Grŵp Tadau**

Bu'r grŵp hwn yn cyfarfod ers peth amser, gydag aelodaeth gyfnewidiol er bod rhai o'r tadau wedi mynychu am y rhan fwyaf o oes y grŵp. Trafododd y grŵp tadau'r broblem o daro plant trwy ystyried eu plentyndod eu hunain a thrafod beth sydd yn gweithio a beth sydd ddim yn gweithio wrth reoli ymddygiad plant.

- **Y Grŵp 'Rhianta Hyderus'**

Roedd y rhieni hyn yn cymryd rhan mewn cwrs 12 wythnos a'r cyfarfod yn ystod yr wythnos 'Help wrth Law' oedd y drydedd sesiwn ar y cwrs. Trafododd y grŵp y mathau o wahanol rianta o 'awdurdodaidd' i 'ddim yn ymwneud'. Trwy drafodaeth agored bu'r grŵp yn ystyried y ffordd yr oedden nhw wedi cael eu magu; eu harddull rhianta presennol a'r dull fyddai'n fwyaf effeithiol yn eu barn nhw.

- **Y Grŵp 'Rheoli Ymddygiad'**

Roedd y rhieni hyn yn cymryd rhan mewn cwrs 12 wythnos, er bod llawer ohonynt eisoes wedi gorffen y cwrs 'rhianta hyderus'. Gwyliodd y grŵp glip byr o ffilm boblogaidd oedd yn dangos gwrthdaro rhwng tad a mab lle'r oedd y ddau yn colli eu tymer. Trafododd y grŵp y ffyrdd y gellid bod wedi rheoli pethau'n wahanol, dynodi'r mannau a sbardunodd y ddadl ac archwilio'r berthynas rhwng ymateb y tad ac ymddygiad y plentyn. Yn y ffordd hon archwiliwyd y cysylltiad rhwng ymateb y rhiant ac ymddygiad y plentyn.

## 3.8 Yr Wythnos Ddigwyddiadau: Sesiynau Ysgol

Yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 15 Mai, cysylltodd Achub y Plant â thair ysgol gynradd leol. Gofynnwyd i'r ysgolion am ganiatâd i siarad â'r disgyblion am eu syniadau a'u barn ar smacio plant. Bwriad Achub y Plant oedd defnyddio'r cymeriad pyped, 'Splodge' fel y'i defnyddiwyd gyda phlant ar gyfer eu hymchwil cenedlaethol 'Listen up' (2003). Penderfynodd un ysgol nad oedd hwn yn ymarfer addas i'w gynnal gyda'r plant a phenderfynodd un arall y dylai staff yr ysgol drafod smacio plant gyda'r disgyblion yn hytrach nag Achub y Plant. Yn yr ysgol a roddodd ganiatâd llwyddodd Achub y Plant i siarad â 27 bachgen a merch o Flwyddyn 3 (7 ac 8 oed).

Cyflwynwyd gwers beilot SCP gan Achub y Plant mewn ysgol gyfun leol hefyd i un ar bymtheg o ddisgyblion Blwyddyn 7 (11 a 12 oed). Rhannwyd y sesiwn yn dair adran. Roedd y sesiwn yn archwilio barn disgyblion dros ac yn erbyn smacio plant, Hawliau Plant ac Ymgyrch SCP. Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran lenwi holiadur syml ar ddiwedd y sesiwn (gweler atodiad 4). Gwelir canlyniadau'r holiadur a disgrifiad o'r sesiynau ysgol yn yr ysgol gynradd ac uwchradd yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

## 3.9 Gweithgareddau: Sesiynau Blasu Rhianta

Yn dilyn yr wythnos o ddigwyddiadau darparwyd dau gwrs blasu rhianta ar wahân am bedair wythnos gan Wasanaeth ‘Mae Rhianta’n Cyfrif’ Barnardo’s Cymru, Castell-nedd Port Talbot. Cynhaliwyd y sesiynau yng nghanolfan gymunedol Gorllewin Llansawel. Roedd un cwrs blasu ar gyfer rhieni plant cyn eu harddegau sydd dros 4 oed ac un cwrs blasu ar gyfer rhieni plant yn eu harddegau. Derbyniodd y rhieni wybodaeth am y cyrsiau mewn nifer o ffyrdd gwahanol: rhai trwy ysgolion/athrawon neu’r swyddog lles addysg, rhai trwy dafod leferydd, ac un trwy’r Tîm Troseddwyr Ifanc. Rhoddodd y cyrsiau blasu flas o’r rhaglen rianta 10 wythnos fwy manwl trwy archwilio a thrafod technegau rhianta cadarnhaol. Ar ôl y cwrs blasu, gwahoddir y rhieni wedyn ar y rhaglen 10 wythnos.

# 4. Canfyddiadau o’r Arolwg Cymunedol

Dosbarthwyd yr arolwg cymunedol, ynghyd ag erthygl am ymgyrch SCP a’r digwyddiadau yn rhifyn Mawrth o gylchlythyr Cymunedau’n Gyntaf i bob un o 1236 aelwyd ardal Gorllewin Llansawel. Bu tîm Cymunedau’n Gyntaf Gorllewin Llansawel a thîm staff canolfan deulu NCH Llansawel yn casglu o ddrws i ddrws ac roedd mannau casglu mewn nifer o leoliadau cymunedol. Cynigiwyd gwobr o £50 i’r enw cyntaf o’r het fel cymhelliad i ddychwelyd yr arolwg.

Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai dau arolwg cymunedol yn cael eu cynnal - un cyn yr wythnos ddigwyddiadau ac un ar ôl yr wythnos honno. Nod hyn oedd galluogi cymhariaeth rhwng agweddau cyn yr wythnos ‘Help Wrth Law’ ac wedyn, i fesur effaith yr wythnos. Fe ddosbarthwyd ail arolwg cymunedol yng nghylchlythyr Mehefin Cymunedau’n Gyntaf, ond ni wnaed gwaith olrhain ar yr arolwg hwn oherwydd bod dadansoddiad o’r data ymchwil yn dangos nad oedd yr wythnos wedi ennyn diddordeb y gymuned leol. Felly nid oedd unrhyw ddiben i’r ail arolwg. Ond mae peth gwybodaeth ddefnyddiol yn y data o’r arolwg cyntaf.

Dychwelwyd cyfanswm o 170 neu 14% o’r holiaduron arolwg cymunedol cyntaf. O’r rhain cwblhawyd 56% gan rieni/gofalwyr; 31% gan neiniau a theidiau; 8% gan bobl heb blant a 5% gan bobl sy’n gweithio gyda phlant neu’n edrych ar ôl plant. Dengys crynodeb o’r canlyniadau bod:

- 75% o bobl yn meddwl nad ydi smacio plant yn eu hatal rhag bod yn ddrwg
- 85% o bobl yn meddwl y gallech atal plant rhag bod yn ddrwg heb eu smacio
- 50% o bobl yn meddwl nad yw’n iawn smacio plant os ydynt yn gwneud rhywbeth peryglus a 50% yn meddwl ei fod
- Roedd bron i 80% o bobl yn meddwl y dylai fod yn groes i’r gyfraith i daro plant yn yr un ffordd ag y mae yn groes i’r gyfraith i daro oedolion
- 51% o bobl yn meddwl bod gan rieni'r hawl i smacio eu plant
- Roedd dros hanner y bobl eisoes wedi gweld gwybodaeth neu wedi trafod â rhywun sut i gael plant i ymddwyn yn dda heb eu smacio ac roedd dros 90% o’r bobl yn meddwl bod cynnal digwyddiadau yn y gymuned i gynnig gwybodaeth a chefnogaeth yn syniad da

Mae’r data’n awgrymu nad oedd mwyafrif y bobl yn y gymuned leol yn meddwl bod smacio plant yn ddull effeithiol iawn o reoli ymddygiad plant. Ond tra bod y mwyafrif (80%) yn meddwl y dylai plant gael yr un warchodaeth gyfreithiol rhag cael eu taro ag sydd gan oedolion, roedd ychydig dros eu hanner (51%) yn credu bod gan rieni ‘yr hawl’ i smacio eu plant. Gall y croesddweud ymddangosiadol hwn fod wedi deillio o’r iaith wahanol a ddefnyddiwyd yn y ddau gwestiwn. Nid yw llawer o bobl yn cytuno â ‘tharo’ plant ond maent yn meddwl ei bod yn iawn eu ‘smacio’. Mae’r ymchwil yn awgrymu bod taro a smacio yn cael eu gweld fel dwy weithred ar wahân. Ysgrifennodd rhai pobl sylwadau fel ‘Dwi’n cytuno i riant smacio plentyn yn ysgafn yn unig’. Rhan o’r her wrth weithredu neges peidio smacio yw darbwyllo’r cyhoedd bod y ddwy weithred yma yn cynrychioli defnyddio grym corfforol annerbyniol ac aneffeithiol yn erbyn plentyn.

Cyfeiriodd llawer o’r bobl a ymatebodd i’r cwestiwn parthed a oeddynt eisoes wedi gweld gwybodaeth am ddewisiadau heblaw smacio at rhaglenni teledu. Teimlai’r mwyafrif o bobl (90%) ei bod yn syniad da cynnig digwyddiadau a chefnogaeth ar y broblem yn y gymuned. Ond, o ystyried y diffyg diddordeb yn y gymuned yn ystod yr wythnos ‘Help Wrth Law’, rhaid i ddigwyddiadau a chefnogaeth i rieni parthed dewisiadau heblaw smacio plant gael eu cysylltu â gwasanaethau a digwyddiadau sydd wedi eu sefydlu a rhai sy’n weithredol yn barod.

# 5. Canfyddiadau o'r Ysgolion: Plant a Phobl Ifanc Lleol yn sôn am smacio

Bu plant a phobl ifanc yn sôn am agwedd niweidiol cael eich smacio. Cyflwynir y canfyddiadau yma, yn gyntaf gan blant oedran cynradd ac yna gan bobl ifanc mewn ysgol gyfun leol.

## 5.1 Plant Cynradd

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i blant mewn ysgol gynradd am smacio gan ddefnyddio pyped o'r enw 'Splodge'. Roedd y cwestiynau a'r ymateb fel a ganlyn:

*Pwy sy'n gwybod beth yw cael eich smacio?*
Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd bod plant yn cael eu smacio neu eu taro pan fyddant wedi bod yn ddrwg, er bod llawer hefyd wedi crybwyll ymladd gyda'u brodyr a chwiorydd yn sefyllfa pan fydd plant yn cael eu smacio.  Fe wnaeth nifer o blant ymateb yn syml ag 'Aw!'

*Pam rydech chi'n meddwl y bydd plant yn cael eu smacio?*
Dywedodd y plant bod plant yn gyffredinol yn cael eu smacio pan fyddant yn ddrwg, yn ddigywilydd, yn anufudd ac ati.  Fe wnaeth rhai plant sôn am falu pethau a dweud 'pethau drwg' fel rhesymau pam y byddai rhywun yn cael ei smacio.

*Pwy sy'n smacio plant fel arfer?*
Cytunodd y plant mai oedolion sy'n smacio plant fel arfer. Gall y rhain fod yn famau neu'n dadau, ond fe all fod yn frawd neu chwaer.  Dywedodd un ferch bod bwlis yn smacio plant.

*Sut fyddwch chi'n teimlo wrth gael eich smacio?*
Dywedodd rhai plant ei fod yn llosgi, yn creu poen, neu fe ddywedon nhw "aw!" Roedden nhw hefyd yn sôn am eu teimladau, gyda'r mwyafrif o'r plant yn dweud bod cael eu smacio yn gwneud i blant deimlo'n drist. Dywedodd rhai plant wrthym fod cael eu smacio yn gwneud iddynt deimlo'n flin, gan ddweud bod cael eu smacio yn gwneud iddyn nhw deimlo "Dwi isio taro rhywbeth".

*Sut mae plant yn ymddwyn wedi cael eu smacio?*
Dywedodd y plant yn unfrydol bron eu bod yn blant da ar ôl cael eu smacio.

*Sut mae oedolion yn ymddwyn wedi iddynt smacio plentyn?*
Dywedodd un plentyn bod oedolion yn ymddwyn yn gas ar ôl smacio plentyn, ond roedd y rhan fwyaf yn dweud bod oedolion yn drist a thawel ar ôl smacio plentyn.

Mae oedolion yn smacio plant ond pam nad yw plant yn smacio oedolion? Dywedodd un plentyn ei fod yn smacio ei fam, ond roedd ymatebion gwahanol i’r cwestiwn hwn:

- Nid yw plant yn smacio oedolion am fod oedolion yn fwy na phlant
- Fe fyddai oedolion yn smacio’r plentyn yn ôl
- Nid yw plant yn smacio oedolion achos “fyddwch chi jyst ddim yn gwneud”
- Byddai smacio oedolyn yn arwain at gosb – cael eich cau yn y tŷ neu gael eich smacio yn ôl gan yr oedolyn

*Mae plant yn smacio ei gilydd ond pam nad yw oedolion yn smacio ei gilydd?*
Yn gyffredinol roedd y plant yn anghytuno â’r syniad nad yw oedolion yn smacio ei gilydd. Dywedodd rhai bod rhieni’n smacio ei gilydd weithiau, ond dywedodd eraill nad yw oedolion yn smacio ei gilydd am ei fod yn beth anghywir i’w wneud. Dywedodd un plentyn, “Mae oedolion yn smacio ei gilydd pan fyddant yn flin a phan fydd pethau’n mynd o chwith”.

*Pan fyddwch chi’n fawr ydych chi’n meddwl y byddwch chi’n smacio plant?*
Yr ymateb cyntaf i’r cwestiwn hwn oedd ‘na’ unfrydol. Ond wedi cael amser i feddwl roedd rhaniad cymharol gyfartal rhwng y plant oedd yn dweud y bydden nhw’n smacio a’r rhai oedd yn dweud na fydden nhw. Penderfynodd rhai plant y gallent smacio plant, ond dim ond petaent yn ddrwg iawn. Roedd awgrymiadau y dylid anfon plant i’w gwelyau yn hytrach na’u smacio pe bydden nhw’n ddrwg iawn.

*Ydych chi’n nabod rhywun sydd ddim yn hoffi smacio?*
Dywedodd rhai plant nad yw eu tad neu fam yn hoffi smacio. Y bobl eraill a grybwyllwyd oedd Neiniau, Splodge a Phrifathro’r ysgol.

*Sut gallwn ni atal smacio plant?*
Bu’r plant yn trafod nifer fawr o ddewisiadau heblaw smacio, gan gynnwys “grounding”, anfon i’r gwely, cloi plentyn yn ei lofft, gwahardd teledu, DVD, Playstation ac ati am gyfnod o ddwy awr hyd at nifer o ddyddiau i flwyddyn, peidio cael mynd allan i chwarae, neu beidio cael mynd i chwarae at ffrindiau, gorfod helpu mam, gweiddi ar blant yn hytrach na’u smacio, neu beidio cael swper. Awgrymodd un plentyn mai un ffordd dda i blentyn osgoi cael ei smacio fyddai i’r plentyn redeg i ffwrdd.

## 5.2 Plant Oed Ysgol Uwchradd

Cymerodd un ar bymtheg o bobl ifanc sy’n mynychu ysgol uwchradd leol ran mewn Gwers Beilot SCP awr o hyd. Roedd y wers yn archwilio barn y bobl ifanc dros ac yn erbyn smacio gan ddefnyddio dull dadl gydag un grŵp yn dadlau dros hawl rhieni i smacio eu plant ac un yn dadlau yn erbyn. Roedd gan y bobl ifanc ddadleuon clir yn eu meddyliau yn barod o ran y ddadl yn erbyn smacio plant ond roedden nhw’n ei chael hi’n

anodd canfod dadleuon dros smacio.  Roedd y bobl ifanc yn bendant bod y gyfraith yn cael ei gweithredu yn wahanol i oedolion nag y mae i blant a bod hyn yn annheg.

Gofynnwyd i’r bobl ifanc a gymerodd ran yn y wers lenwi holiadur byr (gweler Atodiad 4).

Dywedodd naw o bobl ifanc na ddylai rhieni gael yr hawl i smacio eu plant, gan ddweud *‘mae’n greulon ac maen nhw’n rhoi niwed i blant’* a *‘oherwydd fyddwn ni ddim yn eu smacio nhw’.*

Dywedodd saith o bobl ifanc y dylai rhieni gael yr hawl i smacio eu plant *‘weithiau’* oherwydd ‘allan nhw ddim peidio cael eu cosbi am rai pethau’; *‘os nad ydyn nhw’n ufuddhau i’r rheolau maen nhw’n haeddu cael eu smacio’* ac *‘os byddan nhw wedi gwneud rhywbeth gwirioneddol ddrwg’.*

Dywedodd tri ar ddeg o’r bobl ifanc nad oedden nhw’n meddwl bod smacio plant yn eu hatal rhag bod yn ddrwg: *‘mae o’n eu dysgu nhw mai trais ydi’r ateb’*. Roedd tri o’r bobl ifanc yn meddwl bod smacio plant yn eu hatal rhag bod yn ddrwg *‘weithiau’.*

Dywedodd pawb ond un o’r bobl ifanc nad oedd y wers wedi gwneud iddyn nhw newid eu barn am smacio plant, roedd y mwyafrif yn erbyn smacio cyn y wers.

Nid oedd pymtheg o’r un ar bymtheg o bobl ifanc wedi clywed am Gonfensiwn ar Hawliau’r Plentyn y Cenhedloedd Unedig cyn y wers.

Roedd saith o’r bobl ifanc yn meddwl bod smacio plant yn eu hatal rhag cael eu hawliau. Dywedodd pump o’r bobl ifanc nad oedden nhw’n gwybod a dywedodd pedwar nad oedd smacio plant yn eu hatal rhag cael eu hawliau.

Dywedodd pymtheg o’r un ar bymtheg o bobl ifanc y dylai oedolion gael help fel eu bod yn medru rheoli ymddygiad plant heb eu smacio: *‘Iddyn nhw siarad hefo nhw a gwrando ar yr hyn sydd gan eich plentyn i’w ddweud am eu smacio a’u taro’.*

# 6. Gwerthusiad o’r wythnos ‘Help Wrth Law’

Mae’r dystiolaeth yn awgrymu nad yw cynnig darpariaeth ddwys ac ymgyrchu mewn un gymuned dros gyfnod cyfyngedig o amser ynddo ei hun y ffordd fwyaf effeithiol o hyrwyddo dewisiadau cadarnhaol heblaw smacio plant. Ymdrechodd y sefydliadau lleol yn ddygn iawn wrth roi cyhoeddusrwydd i’r digwyddiadau a’r gweithgareddau yn ystod yr wythnos ac ymwneud ag ysgolion lleol a chyrff cymunedol. Ond roedd mwyafrif y rhieni a gymerodd ran yng ngweithgareddau’r wythnos yn ymwneud â chyrsiau dros gyfnod ac roedd nifer o’r rhain o gymunedau cyfagos yn sir Castell-nedd Port Talbot. Darperir y cyrsiau blasu rhianta ar draws y sir gyfan a byddent wedi cael eu cynnal mewn lleoliad gwahanol petai’r wythnos SCP heb ei chynnal.

Rhoddir yr wybodaeth am yr hyn sy’n gweithio o ran hyrwyddo rhianta positif gan y rhieni o’r cyrsiau yn yr adran nesaf, tra bod yr adran hon yn rhoi manylion am werthuso’r wythnos ‘Help Wrth Law’.

## 6.1 Gwerthusiad o’r Cyflwyniadau Cymunedol

Ymddangosodd amrywiaeth o ran barn o’r cyflwyniadau cymunedol.  Gan nad oedd yn sampl gynrychioliadol, ni ellir tynnu unrhyw farn gyffredinol o’r trafodaethau.  Ond, nid oedd pob cynulleidfa’n teimlo bod cyflwyno neges ‘peidio smacio’ yn un moesol gywir. Teimlai lleiafrif o weithwyr proffesiynol o’r grŵp heddlu ac athrawon nad oedd smacio yn anghywir. Ymddangosai’r Bartneriaeth Cymunedau’n Gyntaf a’r grŵp mam a’i phlentyn yn gyffredinol fel petaent yn cytuno â chynnwys y cyflwyniadau ac roeddent yn ymddangos yn gefnogol i’r wythnos o weithgareddau. Roedd grŵp o ddynion sy’n bensiynwyr bron yn unfrydol o blaid smacio. Roedd dwy farn ymhlith y bobl oedd yn teimlo bod smacio yn offeryn dilys wrth fagu plant. Y farn fwyaf cyffredin oedd eu bod wedi cael eu smacio fel plant eu hunain ac ‘na wnaeth unrhyw ddrwg iddyn nhw’. Roedd yr ail farn, a fynegwyd yn grŵp y dynion sy’n bensiynwyr, yn seiliedig ar yr hyn oedd yn cael ei weld fel ymddygiad ‘naturiol’ gyda sylwadau fel ‘Os yw mwncïod yn taro eu rhai bach yna mae’n rhaid ei fod yn iawn i ninnau’.

## 6.2 Gwerthusiad o’r sesiynau galw i mewn

Ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o’r sesiynau galw i mewn gyda dim ond tri rhiant yn mynychu trwy’r wythnos. Ond, roedd dau o’r rhieni hyn wedi gyrru ar draws y sir er mwyn cael cyngor i reoli ymddygiad eu plant ac mewn cyfweliadau fe ddywedasant eu bod yn teimlo ar ben eu tennyn a ddim yn gwybod ble i fynd i gael cyngor. Awgrymodd y sylwadau mewn grwpiau ffocws gyda rhieni, er bod sesiynau galw i mewn yn syniad da bod angen eu darparu yn y tymor hir ar yr un adeg bob wythnos gyda’r un staff yn bresennol. Awgrymodd y rhieni y dylai unrhyw sesiwn galw i mewn gael ei chysylltu â datblygiad plentyn yn gyffredinol sy’n cynnwys y neges peidio smacio plant ynghyd â chyngor gofal plant arall.

## 6.3 Gwerthusiad o'r Lansiad

Mynychwyd y lansiad gan 20 o blant ac wyth o rieni. Mewn rhai achosion y digwyddiad oedd y tro cyntaf i'r rhiant fynychu'r ganolfan deulu. Mynegodd y rhieni y bu'r ymchwilwyr yn siarad â nhw bryder am ddiogelwch cymunedol gan sôn am eu pryder wrth adael eu plant allan. Mae hyn yn awgrymu bod eu pryderon yn rhai mwy uniongyrchol na phryderon gweithwyr proffesiynol am rianta positif. Teimlai'r rhieni yn y lansiad bod yr wythnos o weithgareddau'n syniad da ond credent y gallai'r nifer fyddai'n mynychu fod yn isel gan fod pobl yn cymryd amser i arfer â rhywbeth newydd. Llwyddodd y lansiad i gyrraedd rhieni nad oeddynt wedi cael cyswllt â"r ganolfan deulu o'r blaen gan fod gweithgareddau'n cael eu cynnig, fel bwyd, celf, chwaraeon a pheintio wynebau. Awgrymwyd y gellid cynnal digwyddiadau cymunedol gyda ffocws ar faterion sy'n berthnasol i rieni, er enghraifft cyngor ar fudd-daliadau a lles neu ddiogelwch cymunedol. Byddai digwyddiadau o'r fath yn galluogi i'r neges peidio smacio ddod gyda chyngor cyffredinol a chefnogaeth holistig i rianta ond mewn dull ysgafn fyddai'n hwyl i'r teulu.

## 6.4 Trosolwg o'r wythnos o weithgareddau 'Help Wrth Law'

Ni lwyddodd yr ymgyrch na'r wythnos o weithgareddau i ennyn diddordeb y rhieni o'r gymuned leol am y ddau reswm canlynol:

- Awgrymodd rhai rhieni bod y deunydd cyhoeddusrwydd yn anodd ei ddehongli. Yn gyffredinol dywedodd rhieni nad yw hysbysebion poster yn gweithio oni bai eu bod yn dal y llygad ac yn uniongyrchol a bod yr hysbysebion ar gyfer wythnos 'help wrth law' yn rhy fach ac o bosibl yn rhy 'glyfar' ac felly nid oedd rhai rhieni'n siŵr beth oedd y neges

- Mae ar rieni angen llawer o wybodaeth a chyfnod o amser i ddod yn gyfarwydd â gwasanaeth newydd neu ddarpariaeth newydd yn y gymuned cyn y byddant yn barod i ymwneud ag o. Rhaid i rieni fod â hyder ac ymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol cyn ymdrin â phwnc fel smacio plant. Cefnogir hyn gan ymateb ysgolion lleol oedd yn betrusgar ynglŷn ag ymdrin â'r pwnc oherwydd ymateb posibl rhieni.

Llwyddodd yr wythnos o weithgareddau 'Help Wrth Law' a'r gweithgareddau cysylltiedig cyn ac ar ôl yr wythnos yn y ffyrdd canlynol:

- Rhoddodd yr ymgyrch sylw i'r problemau yn lleol a llwyddo i gael pobl i feddwl a siarad am effaith smacio plant a'r problemau ynglŷn â rhianta yn fwy cyffredinol

- Daeth rhianta cadarnhaol i ben agenda llawer o sefydliadau a rhwydweithiau lleol

- Fe roddodd yr wythnos o weithgareddau wybodaeth am ‘yr hyn sy’n gweithio’ i rieni a gofalwyr wrth gael cefnogaeth i arfer rhianta positif a defnyddio dulliau heblaw smacio plant. Daeth yr wythnos a rhieni at ei gilydd i edrych ar y problemau mewn nifer o wahanol ffyrdd a rhoddodd hyn gyfle i’r ymchwilwyr i archwilio’r problemau yn fanwl gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol. Rhoddodd y rhieni gyfoeth o wybodaeth yng nghyswllt y ffyrdd gorau i gynnig cyngor a chefnogaeth gan ddynodi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Yn y ffordd hon mae’r gwerthusiad o’r digwyddiadau ‘Help wrth Law’ wedi creu rhai negeseuon clir am yr ‘hyn sy’n gweithio’ i rieni wrth hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio plant

# 7. Beth sy'n gweithio wrth hyrwyddo rhianta cadarnhaol a dewisiadau heblaw smacio plant?

Yn ystod yr wythnos 'Help wrth Law' a'r gweithgareddau cysylltiedig bu'r ymchwilwyr yn siarad â 39 o rieni mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol:

- Roedd rhai rhieni yn cael cefnogaeth am y tro cyntaf yng nghyswllt problem sydd ganddynt ar hyn o bryd
- Roedd rhai rhieni yn mynychu cyrsiau a rhaglenni sydd ar y gweill. Roedd ar rai o'r rhieni yma angen cefnogaeth gyda phroblemau penodol, roedd gan rai blant oedd mewn perygl o fynd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, roedd gan rai ohonynt blant ar y Gofrestr yn barod ac roedd gan rai blant oedd dan ofal yr awdurdod lleol
- Roedd rhai o'r rhieni wedi cael profiad o ymyrraeth wahanol gan y sector gwirfoddol
- Roedd rhai o'r rhieni wedi cael profiad o wasanaethau statudol, addysg, gwasanaethau cymdeithasol neu'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd yn bennaf

Wrth drafod cyrsiau rhianta a gwasanaethau cefnogi ehangach daeth nifer o themâu i'r golwg. Dosbarthwyd y rhain i'r adrannau isod.

## 7.1 Gwybodaeth a Chyngor

Bu'r rhieni'n siarad am yr anhawster i gael mynediad at yr wybodaeth a'r cyngor cywir. Dywedodd llawer o rieni na fyddent yn defnyddio llinell gymorth ar y ffôn oherwydd nad ydynt yn adnabod y person sy'n ateb y galwad, ei bod yn anodd cadw rhifau wrth law pan fydd arnoch eu hangen a'i bod yn ddrud ar ffonau symudol. Roedd y farn parthed llyfrynnau yn rhoi cyngor yn fwy cymysg. Teimlai rhai rhieni y byddent yn eu defnyddio ond dywedodd eraill y byddai llyfrynnau yn mynd ar goll. Y consenswς oedd bod llyfrynnau naill a'i yn rhoi gormod o wybodaeth neu rhy ychydig i fod o ddefnydd yn ymarferol. Mae'n well gan rieni gyswllt wyneb yn wyneb â rhywun y gallant lunio perthynas â nhw, ond teimlent fod mynediad at gefnogaeth weithiau yn ddibynnol ar ba weithiwr proffesiynol y byddech yn ymwneud ag ef/hi a lefel ei sgil. Mae eu profiadau'n awgrymu, pan fydd cefnogaeth yn cael ei roi gan weithwyr proffesiynol mewn gwahanol gyrff statudol (gwasanaethau cymdeithasol, addysg a CAMHS yn arbennig) mae'n aml yn negyddol - gan dueddu i nodi diffygion a phroblemau yn hytrach nag awgrymu atebion a

rhoi anogaeth. Roedd y gefnogaeth gan y gwasanaethau statudol hyn yn dueddol o fod yn ymatebol ac adroddodd rhieni bod dod o hyd i gyngor a help ataliol yn anodd iawn.

Gall cael gwybodaeth ynglŷn â ble i fynd am gyngor a chefnogaeth fod yn arbennig o anodd unwaith y mae'r plant dros bum mlwydd oed neu pan fydd gan blentyn anabledd dysgu neu gyflwr ymddygiad penodol fel ADHD. Dywedodd y rhieni bod raid i'r wybodaeth am beth i'w wneud a ble i fynd fod yn fwy hygyrch. Fe wnaethant awgrymu:

- Ysgolion a chanolfannau iechyd yw'r mannau gorau i arddangos taflenni gwybodaeth, llyfrynnau a gwybodaeth am gefnogaeth a sut i gael gafael arno. Teimlid y byddai gweithwyr proffesiynol yn y sefyllfaoedd hyn, petaent yn cael hyfforddiant, yn y lle delfrydol i roi gwybodaeth gyffredinol ar ddatblygiad plant a rheoli ymddygiad plant

- Rhaid i weithwyr proffesiynol gael rhagor o wybodaeth am ba gefnogaeth sydd ar gael yn y gwahanol sectorau fel eu bod yn medru rhoi'r cyngor cywir i rieni am ble i fynd. Byddai gwybodaeth a chefnogaeth gynnar yn galluogi rhieni i weithredu o fewn eu teuluoedd cyn iddynt gyrraedd sefyllfa o argyfwng. Roedd cytundeb cyffredinol bod mynychu cyrsiau yn dueddol o fod yn ymatebol yn hytrach nac ataliol

- Mae cael gwybodaeth a chefnogaeth yng nghyswllt plant a phobl ifanc sy'n hŷn na 5 mlwydd oed neu yng nghyswllt plentyn gydag anghenion arbennig yn neilltuol o anodd

*'Byddai cael rhywun fel yna (ymwelydd iechyd) i'r rhai dros 5 oed yn wych.  Nid oes dim gwybodaeth gan ddoctoriaid na dim.  'Does unman i fynd a deud y gwir'*

*'Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd yn normal i rywun 12 oed'*

*'Nid yw (cyhoeddiad ar ddatblygiad plant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) yn dweud beth i'w wneud os nad yw eich plentyn yn cyrraedd y cyfnodau datblygu'*

## 7.2 Cefnogaeth wedi ei thargedu

Mae prinder gwasanaethau wedi eu targedu ar gyfer grwpiau cymdeithasol penodol, ac eithrio rhieni ifanc. Ni fu'r ymchwilwyr yn siarad ag unrhyw rieni o'r cymunedau Du a Lleiafrif Ethnig (BME) yng Nghastell-nedd Port Talbot. Yn ardal Castell-nedd Port Talbot gellir gweithredu yn unol â'r cynllun gweithredu Asesu Effaith Cydraddoldeb Hiliol, a gynhaliwyd ar gyfer eu strategaeth Iechyd a Lles 2005 i 2008. Ond yn genedlaethol rhaid rhoi cyfeiriad i sicrhau bod cefnogaeth i rieni ar gael ar gyfer pob cymuned. Ni fu'r ymchwilwyr yn siarad chwaith ag unrhyw rieni ag anabledd, ac mae hynny'n awgrymu bod hwn yn faes sydd angen ei ddatblygu.

Rhaid i fwy o wasanaethau fod ar gael i gefnogi tadau a rhaid i wasanaethau prif-ffrwd fedru ennyn ymlyniad tadau yn well.  Mynychodd yr ymchwilwyr grŵp tadau, ond yn gyffredinol fe wnaethant siarad â mwy o famau nag o dadau. Nid yw hyn yn awgrymu

nad yw dynion yn weithredol ym mywydau eu plant ond weithiau nid ydynt am fynd gyda’u partneriaid ar gwrs, neu mae arnynt angen cefnogaeth ar ffurf wahanol i fenywod. Er mwyn datblygu perthynas deuluol gadarnhaol rhaid i ragor o wasanaethau weithio gyda thadau a gweithredu yn fwy sensitif i chwalfa deuluol. Esboniodd rhai mamau ifanc bod gweithwyr proffesiynol yn eu beirniadu am eu cyn-bartneriaid tra bod rhai tadau’n dweud mai cyswllt cyfyngedig oedd ganddynt gyda’u plant oherwydd nad oeddent yn medru cael cartref addas i’w plant fedru aros gyda nhw.

*‘Mae llawer o’r gwasanaethau sydd ar gael wedi eu paratoi fwy ar gyfer helpu mamau’.*

## 7.3 Ystyriaethau Ymarferol: Gofal Plant a Chludiant

Bu’r rhieni’n sôn am yr anhawster i dalu costau cludiant i fynd i ganolfannau teuluol, cyrsiau rhianta a gofal iechyd. Mewn ardaloedd gwledig yn aml iawn nid oes cludiant cyhoeddus ar gael i gyrraedd dosbarthiadau neu grŵp, yn arbennig ar fin nos. Roedd darparu gofal plant am ddim yn elfen hanfodol ac ni fyddai llawer o rieni’n medru mynychu cyrsiau neu grwpiau oni bai bod costau gofal plant yn cael eu talu. Wrth gael mynediad at ddarpariaeth sy’n cefnogi eu sgiliau rhianta mae ar rieni angen gwasanaethau sydd:

- Yn lleol iawn neu sydd â chludiant am ddim os nad ydynt yn lleol
- Â gofal plant am ddim, neu fydd yn talu costau gofal plant, tra bydd rhieni yn cymryd rhan mewn cyrsiau a grwpiau neu’n siarad â gweithwyr proffesiynol

*‘Rydych am gael cymorth a bod yn rhieni da...ac rydych yn gwneud yr ymdrech ond wedyn mae’n costio i chi’*

*‘Maen’ nhw’n taflu’r holl gyrsiau yma atoch chi am ddim, beth ydych chi fod i’w wneud hefo’r plant?’*

## 7.4 Crisis Support

Weithiau bydd ar rieni angen mynediad ‘ar unwaith’ at help a chefnogaeth pan fydd ymddygiad plentyn yn gwaethygu neu fod pethau’n cyrraedd sefyllfa o argyfwng yn y teulu neu yn yr ysgol. I rai rhieni mae Ymwelwyr Iechyd yn chwarae rôl hanfodol wrth gynnig y lefel hwn o gefnogaeth yng nghyswllt plant dan bump oed. Ond roedd hyn yn dibynnu ar yr Ymwelydd Iechyd unigol a theimlai rhieni plant h_n nad oes ganddynt unlle i fynd yn aml. Roedd teimlad bod gwasanaethau cymdeithasol yn dilyn pryderon amddiffyn a lles plant pan oeddynt yn cael eu cofnodi gan weithiwr proffesiynol arall ond nad ydynt yn medru ymateb i rieni sy’n chwilio am help yn ystod argyfwng. Un o ddibenion y cyrsiau blasu yw rhoi cefnogaeth yn syth i rieni fel nad oes raid iddynt aros i gael mynediad ar gwrs llawn. Croesawodd y rhieni fu ar y cyrsiau blasu hyn gan ddweud bod yr hyn yr oeddynt wedi ei ddysgu dros y cyfnod o bedair wythnos wedi rhoi syniadau iddynt weithio gyda nhw nes y byddent yn mynychu’r cwrs hirach. Wrth chwilio am gefnogaeth yn ystod argyfwng byddai rhieni’n hoffi cael:

- Cyswllt â gweithiwr proffesiynol sy'n adnabyddus iddynt ac y maent yn medru ymddiried ynddo/ynddi ac sy'n gwybod am eu sefyllfa. Mae rhieni'n arbennig yn croesawu medru ffonio gweithiwr prosiect am gyngor pan fydd angen iddynt

- Cyswllt â gweithiwr proffesiynol sydd â'r wybodaeth gywir ac sy'n deall y dull iawn i'w ddefnyddio gyda phlant a phobl ifanc o wahanol oedrannau sydd â phroblemau penodol

- Man ac amser cyson a lleol i gael cyngor a chefnogaeth pan fydd pethau'n mynd yn argyfyngus neu ei bod yn 'wythnos ddrwg' fel gwasanaeth galw i mewn cyson

*'Os ewch chi i sesiwn galw i mewn yna mae'n rhaid iddyn nhw (y staff) wybod beth yw'r sefyllfa (fydd arnoch chi ddim eisiau) siarad â dieithryn bob tro y byddwch yn mynd'*

*'Mae gan dadau'r un pryderon â mamau...byddai'n rhaid iddo fod yn rhywun yr wyf yn gyfforddus hefo fo ac y gallwn ymddiried ynddo'*

*'Mae fy ymwelydd iechyd yn wych….allai weld 'run diffyg ynddi'*

*'Fe wnes i adael ugain o negeseuon iddi( gweithwraig broffesiynol) i ddod yn ôl ata' i.. i weithio hefo fi i fynd i NCH...dim byd'.*

## 7.5 Cyrsiau a Grwpiau Rhianta

Wrth roi sylwadau ar y cyrsiau rhianta a'r cyrsiau blasu pedair wythnos roedd y rhieni'n unfrydol gadarnhaol am effaith cymryd rhan ac roedd ganddynt rai syniadau clir pam eu bod yn hoffi'r dull a ddefnyddiwyd yn y grwpiau. Roedd y rhieni hefyd yn glir bod mynychu'r cyrsiau yn rhoi sgiliau a hyder newydd iddynt yn eu gallu fel rhieni. Roedd yr ymateb cadarnhaol am y grwpiau a'r cyrsiau yn ymdrin â chynnwys y cyrsiau yn ogystal â'r broses yr oedd yr hwyluswyr yn ei chreu i gyflwyno'r cyrsiau neu grwpiau. Dywedodd y rhieni wrthym:

- Maent am fynychu cyrsiau rhianta fel eu bod yn medru ennyn hyder a chael gwybodaeth am arferion rhianta da

- Maent yn mwynhau dull anffurfiol a hamddenol

- Mae rhieni am gael mynediad at yr wybodaeth a'r cyngor y mae arnynt eu hangen i wneud penderfyniadau da ar gyfer eu plant ond nid ydynt am gael neb yn dweud wrthynt beth i'w wneud

- Mae arnynt angen cael eu sicrhau nad yw cael eu cynghori i chwilio am gefnogaeth yn golygu eu bod yn 'rieni gwael'

- Mae rhieni'n mwynhau cyfarfod rhieni sy'n profi problemau tebyg iddyn nhw fel nad ydyn nhw'n teimlo mai nhw yw'r unig un sy'n profi anawsterau

*'Fyddan nhw ddim yn deud wrthych chi beth ddylech chi ei wneud, maent yn gadael i chi wneud eich penderfyniadau eich hun. Maent yn eich helpu i benderfynu beth sydd arnoch chi ei eisiau i'ch plant. Gyda'r un arall (cwrs arall) maent yn dweud wrthych beth ddylech chi ei wneud, beth sy'n iawn a beth sy'n anghywir, ond yn hwn maen nhw'n eich helpu i benderfynu beth sydd arnoch chi ei eisiau i'ch plant, yn hytrach na dweud wrthych beth ddylech chi fod wedi ei wneud'*

*'Er y gallan nhw fod yn weithwyr proffesiynol maen nhw (yr hwyluswyr) yn dal yn gyfeillgar'*

*'Fe wnaeth ail ennyn fy hunan hyder, fy hunan barch a stwff felly'*

*'Fe wnes i sylweddoli fy mod am ddod ar hwn (y cwrs) oherwydd dwi am gael yr hyder i fedru ei wneud 24 awr y dydd...dwi am gael yr hyder i fedru ei wneud..a dwi'n gwybod y gallwn i' (Rhiant yn aros i'w phlentyn gael ei rhoi yn ôl gyda'i theulu ac yn cael cyswllt cyfyngedig ar hyn o bryd).*

*'Mae o'n eich helpu chi a gobeithio y bydd yr wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'm mab oherwydd wrth gwrs mae o'n mynd i gychwyn teulu un diwrnod ac os gall o eistedd yn ôl a meddwl, o iawn fel hyn roedd dad yn fy nhrin i...fe fyddwn yn ei argymell i bawb'*

*'Dwi yma i wella fy hun fel rhiant'*

## 7.6 Cael y Neges i'r Brif-ffrwd

Un o'r prif wersi a ddysgwyd trwy'r wythnos 'Help wrth Law' yw bod raid i hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio fod yn rhan ganolog o arferion pob dydd pob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â theuluoedd. Yn dilyn yr wythnos 'Help wrth Law' cyfarfu'r sefydliadau a'r unigolion oedd wedi bod yn gyfrifol am gynllunio a darparu'r wythnos i drafod yr hyn a ddigwyddodd. Un o ganlyniadau clir y drafodaeth hon oedd y byddai wedi bod yn fwy effeithiol cyflwyno sesiynau am ddewisiadau heblaw smacio plant i rieni oedd eisoes yn cyfarfod trwy grwpiau chwarae, ysgolion neu grwpiau cymdeithasol yn hytrach na chynnal y digwyddiadau mewn un lleoliad a rhoi cyfle i'r rhieni ddod yno. Roedd y dystiolaeth gan rieni'n cefnogi'r dull hwn. Roedd rhieni'n glir iawn am y ffaith y gall fod yn anodd cael gafael ar yr wybodaeth, cyngor a chefnogaeth cywir. Cytunent hefyd bod mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth hefyd yn ddibynnol ar naill ai bod mewn cysylltiad â'r ymarferwr 'cywir' neu ar i sefyllfa gyrraedd pwynt lle mae'n argyfwng. Dynododd rhieni rôl allweddol i ysgolion wrth symud yr agenda hon ymlaen. Dynodwyd bod Ymwelwyr Iechyd yn ffynhonnell allweddol ar gyfer cyngor a chefnogaeth yng nghyswllt plant dan bum mlwydd oed. Awgrymodd rhieni bod:

- Ysgolion mewn sefyllfa dda i ddarparu llenyddiaeth a gwybodaeth hawdd ei gyrraedd am gefnogaeth
- Cyrsiau rhianta yn cael eu rhoi yn y brif-ffrwd fel nad yw rhieni'n teimlo na fedrant eu defnyddio oni bai bod pethau'n mynd o chwith

- Rhaid i gyrsiau rhianta chwarae rôl ataliol yn hytrach nag un ymatebol
- Ysgolion yn ddull da o ddarparu cyrsiau rhianta i bawb fel bod disgwyliad bod rhieni ‘normal’ yn eu mynychu
- Ysgolion cynradd yn lleoliad da i gynnig sesiynau galw i mewn anffurfiol i drafod problemau posibl yn gynnar
- Gwasanaethau yr un fath ag Ymwelwyr Iechyd ar gael i bob rhiant wrth i’w plant dyfu ac nid dim ond hyd at 5 mlwydd oed
- Plant yn treulio cyfnod o bob wythnos gyda theidiau a neiniau neu rieni nad ydynt yn preswylio gyda nhw. Pan fydd hyn yn digwydd mae cysondeb y dull o reoli ymddygiad yn cael ei chwalu. Byddai cyrsiau rhianta cyffredinol i bawb yn golygu bod y plant yn cael neges sy’n gyson gan bawb
- Dylai athrawon fynychu cyrsiau rhianta neu dylent fod yn elfen o hyfforddi athrawon. Byddai hyn yn golygu bod ymddygiad plant yn cael ei reoli mewn ffordd gyson trwy gydol y diwrnod
- Mae rhieni’n teimlo eu bod yn rhieni gwael pan fydd gweithiwr proffesiynol yn awgrymu bod arnynt angen cefnogaeth arbenigol. Gall termau fel cwrs rhianta neu raglen rhianta wneud i rieni deimlo eu bod yn cael eu cyhuddo. Byddai’r stigma yn cael ei leihau petai’r gefnogaeth ar gael yn fwy cyffredinol fel rhan o’r gwasanaethau prif-ffrwd a phetai’r termau a ddefnyddir yn cael eu newid. Rhai o’r enghreifftiau a roddwyd oedd ‘byw’n heddychlon gyda rhai yn eu harddegau’ ac ‘osgoi strancio ymhlith plant dan 8 oed’

*‘Pam na allwn ni gael rhywbeth run fath â hwn (y cwrs) a fyddai’n arferol i unrhyw riant fedru mynd arno?’*

*‘Petaech yn medru ei gael yn yr ysgol gynradd unwaith y mis a’r rhieni unigol yn cael dewis os ydyn nhw am fynychu, wrth gwrs mi fyddan nhw’n gwybod os byddan nhw’n cael problemau yn y cartref a ble mae ‘na rhywun iddynt droi ato’*

*‘(fe ffoniodd ymarferwr a dweud am) gyrsiau rhianta...ydech chi’n dweud fy mod yn rhiant gwael, wnes i ddim dweud hynny ond roeddwn yn ei deimlo, ond roeddwn i hefyd yn teimlo, wel, os gwnaiff hynny fy helpu, ie cyfeiriwch fi’*

# 8. Casgliad

Ariannwyd yr ymchwil gwerthusol hwn i archwilio’r ffyrdd mwyaf effeithiol o newid agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol a’r ffyrdd mwyaf effeithiol o gynnig cyngor a chefnogaeth ymarferol i rieni i fabwysiadu dulliau nad ydynt yn dreisgar o reoli ymddygiad eu plant.

Nid oes digon o dystiolaeth o’r fenter benodol hon i werthuso ffyrdd effeithiol o newid agweddau ar draws cymuned benodol yn ystyrlon. Ond, mae’r gwerthusiad hwn yn awgrymu na all y neges dim smacio sefyll fel pwnc ar ei ben ei hun. Nid oedd unrhyw un o’r rhieni y buom yn siarad â nhw na’r rhan fwyaf o’r rhai a ymatebodd i’r arolwg yn credu bod smacio plant yn gweithio. Dywedodd y rhieni oedd yn mynychu’r grwpiau rhianta nad ydynt yn smacio eu plant, ond eu bod yn ei chael yn anodd gwybod sut i ymdrin yn effeithiol ag ymddygiad negyddol eu plant. Dywedodd yr oedolion sydd yn ffafrio smacio plant, oedd yn bresennol mewn rhai o’r cyflwyniadau cymunedol, na wnaeth cael eu smacio erioed eu niweidio nhw yn blant. Er mwyn ymdrin â’r amrywiaeth barn rhaid i’r neges dim smacio plant gael ei gysylltu â neges ehangach parthed manteision rhianta cadarnhaol a’u gweithredu trwy gefnogaeth gyffredinol a gwasanaethau prif-ffrwd i alluogi rhieni i ymarfer rhianta positif.

Dywedodd arolygon a polau niferus yn ddiweddar fod canran o rieni ‘dros’ neu yn erbyn smacio plant ac mae’n bosibl y bydd rhieni bob amser yn rhoi gwahanol ymateb yn dibynnu sut y gofynnir y cwestiwn. Er y gall ein harolwg fod wedi creu rhagfarn drwy ddweud fod SCP yn erbyn smacio, mae geiriad y cwestiynau yn dangos sut mae oedolion yn gwahaniaethu rhwng taro, smacio a hawliau plant. Mae neges ymgyrchu yn sefyll ar ben ei hunan o ‘dim smacio’ yn debygol o wneud barn dros neu yn erbyn smacio yn fwy amwreiddiedig. Mae newid agwedd yn debycach o ddigwydd os oes dewisiadau heblaw smacio ar gael i rieni, os esbonnir hawliau plant i rieni a bod swyddigion sy’n gweithio gada phlant yn cael eu hyfforddi i gefnogi teuluoedd mewn rhianta positif. Nodwyd yn glir gan rieni sy’n derbyn gwasanaethau cefnogaeth teulu ar hyn o bryd fod dysgu am beidio smacio on bart o ddysgu am ddatblygiad plentyn.

I’r diben hwn, mae canfyddiadau’r ymchwil yn canolbwyntio ar beth sy’n gweithio i rieni o ran darparu cefnogaeth rianta, dynodi cryfderau a gwendidau allweddol yn y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd. Y canfyddiad allweddol a ddeilliodd o’r ymchwil oedd bod hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio plant yn golygu cynnig offer i rieni i reoli ymddygiad plant yn effeithiol cyn i bethau gyrraedd sefyllfa o argyfwng. Rhaid i’r gefnogaeth gyrraedd yn gynt a bod yn haws ei gyrraedd. Dylai defnyddio cefnogaeth i ddatblygu sgiliau rhianta gael ei gyflwyno a’i ymarfer fel rhan bob dydd o ddod yn rhiant ac o fod yn un.

Mae Cynllun Gweithredu Rhianta’r Cynulliad, Ysgolion â Ffocws Cymunedol, Canolfannau Plant Integredig a’r cyfleoedd am wasanaethau diwnïad a gynigir gan ‘Partneriaethau Cryfach, Gwell Canlyniadau’ yn cynnig tir ffrwythlon ar gyfer dull o’r fath. Rhaid i’r agenda hon gael cefnogaeth hyfforddiant wedi ei raeadru i bawb sy’n cynnig gwasanaethau i blant, pobl ifanc a’u teuluoedd. Felly gall y rhaniad moesol ffug rhwng ‘taro’ a ‘smacio’ gael ei chwalu fel bod plant yn cael eu gwarchod rhag cosb gorfforol yn ymarferol os nad yn statudol.

# Appendix 1

## Yr Arolwg Cymunedol

**‘SDIM CURO PLANT! CYMRU**

‘Sdim Curo Plant! Children are Unbeatable! Cymru

**AROLWG CYMUNEDOL**

Mae ‘Sdim Curo Plant! Cyru yn gynghrair o gyrff sydd am i blant gael yr un warchodaeth gyfreithiol rhag cael eu taro ag oedolion ac i gefnogi rhieni i ddod o hyd i ffyrdd gwahanol cadarnhaol o ddisgyblu eu plant. Mewn partneriaeth â chyrff lleol byddwn yn cynnal digwyddiadau yn eich cymuned ym Mai 2006 i hyrwyddo ffyrdd cadarnhaol o ddisgyblu plant. A wnewch chi os gwelwch yn dda roi ychydig o’ch amser i lenwi’r holiadur hwn fel ein bod yn medru darganfod beth ydych chi’n ei feddwl am hyn. Byddwn yn galw i gasglu’r arolwg neu gallwch ei ddychwelyd i fan casglu cymunedol. Bydd un o’r arolygon a lenwyd yn cael ei dynnu allan o het a’r person a’i llenwodd yn derbyn £50. Rhowch eich enw a’ch rhif ffôn os ydych am gael cyfle i ennill gwobr. Dim ond i adael i chi wybod eich bod wedi ennill y byddwn yn defnyddio’r rhif ffôn ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall.

**ENW:**

**RHIF FFÔN:**

1. Ydych chi’n meddwl bod smacio plant yn eu hatal rhag bod yn ddrwg?
   Ydw [ ]   Na [ ]

2. Ydych chi’n meddwl y gallwch atal plentyn rhag bod yn ddrwg heb ei smacio?
   Ydw [ ]   Na [ ]

3. Ydych chi’n meddwl ei bod yn iawn smacio plentyn os byddant yn gwneud rhywbeth peryglus?
   Ydw [ ]   Na [ ]

4. Ydych chi’n meddwl y dylai fod yn groes i’r gyfraith i daro plant yn yr un ffordd ag y mae’n groes i’r gyfraith i daro oedolion?
   Ydw [ ]   Na [ ]

5. Ydych chi’n meddwl bod gan rieni’r hawl i smacio eu plant?
   Ydw [ ]   Na [ ]

6. Ydych chi wedi gweld unrhyw ddeunyddiau neu a oes rhywun wedi sôn wrthych am ffyrdd o gael plant i ymddwyn yn dda heb eu smacio?
   Ydw [ ]  Na [ ]

7. Ydych chi’n meddwl ei bod yn syniad da cynnal digwyddiadau yn y gymuned i adael i bobl wybod am ffyrdd o gael eu plant i ymddwyn yn dda heb eu smacio?
   Ydw [ ]  Na [ ]

A ydych chi yn (rhowch dic wrth bob un sy’n berthnasol i chi):
Rhiant [ ]  Nain/Taid [ ]  Rhywun sy’n edrych ar ôl plentyn [ ]
Rhywun heb blant [ ]  Rhywun sy’n gweithio gyda phlant [ ]

# Atodiad 2

## Cyhoeddusrwydd i’r wythnos ‘Help wrth Law’



# Atodiad 3

## Rhaglen y Digwyddiadau

’Sdim Curo Plant!
Children are Unbeatable! Cymru

**ar y cyd â**
**Barnardo’s Cymru, NCH Cymru a**
**Chymunedau’n Gyntaf Gorllewin Llansawel**

# “HELP WRTH LAW”

## Wythnos o weithgareddau’n hyrwyddo ‘dewisiadau heblaw smacio plant’ 15 – 19 Mai 2006

**RHAGLEN Y DIGWYDDIADAU**

### Dydd Llun, 15 Mai 2006

| | |
|---|---|
| **1pm - 3pm** | Sesiwn galw i mewn i rieni, gofalwyr a phlant bach yng nghanolfan teulu NCH (gyda gweithgareddau chwarae a lluniaeth) |
| **4pm** | Lansio’r Gweithgareddau gan Jane Hutt, AC a Gweinidog Plant a chyflwyniad gan Sara Reid, Comisiynydd Cynorthwyol, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru<br>(Prynhawn o hwyl gyda chastell gwynt, lluniaeth ac ati) |

### Dydd Mawrth, 16 Mai 2006

| | |
|---|---|
| **am** | Sesiwn galw i mewn gan Ymwelwyr Iechyd Sesiynau Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn Ysgol Gyfun Cwrt Sart (Blwyddyn 7) |
| **1.30pm - 3.30pm** | Sesiwn galw i mewn Rhianta Cadarnhaol i rieni plant bach yn cael ei redeg gan Cychwyn Cadarn (cyngor anffurfiol a lluniaeth) |
| **5.30pm - 7pm** | Sesiwn galw i mewn yn hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio plant i rieni rhai yn eu harddegau gan Barnardo’s Cymru |
| **5.30pm - 7pm** | Sesiwn galw i mewn yn hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio plant i rieni rhai dan 11eg yn cael ei redeg gan NCH Cymru |

## Dydd Mercher, 17 Mai 2006

| | |
|---|---|
| **am** | Sesiwn galw i mewn yn cael ei redeg gan Ymwelwyr Iechyd |
| **10am – 12pm** | Cwrs rhianta hyderus yn cael ei redeg gan NCH Cymru |
| **1.15pm - 2.15pm** | Barn plant iau am gael eu smacio gohiriwyd |
| **1.30pm - 3.30pm** | Grŵp Dynion NCH Cymru – bod yn dad a rheoli ymddygiad plant |
| **5.30pm - 7pm** | Sesiwn galw i mewn yn hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio i rieni plant sydd yn eu harddegau gan Barnardo’s Cymru |
| **5.30pm - 7pm** | Sesiwn galw i mewn yn hyrwyddo dewisiadau heblaw smacio i rieni plant dan 11 oed gan NCH Cymru |

## Thursday, 18 Mai 2006

| | |
|---|---|
| **am** | Sesiwn galw i mewn a redir gan Ymwelydd Iechyd |
| **10am – 12pm** | Sesiwn gaeedig o’r cwrs rhianta rheoli ymddygiad gan NCH Cymru |
| **1pm - 3pm** | Sesiwn galw i mewn, dewisiadau heblaw smacio plant |
| **1.30pm - 2.30pm** | Barn plant iau am smacio plant |

## Dydd Gwener, 19 Mai 2006

| | |
|---|---|
| **pm** | Edrych yn ôl a gwerthuso grŵp ffocws gyda’r holl weithwyr proffesiynol a fu’n ymwneud â’r gweithgareddau |

## Mehefin 2006

Pedair wythnos o flasu cwrs rhianta gan Barnardo’s Cymru i rieni gyda phlant iau

Pedair wythnos o flasu cwrs gan Barnardo’s Cymru i rieni rhai yn eu harddegau

# ‘Help wrth Law’

# Atodiad 4

## Holiadur a lenwyd gan Ddisgyblion Ysgol Uwchradd

Bwriad y ffurflen hon yw darganfod beth yw eich barn am smacio plant wedi eich gwers heddiw. Byddwn yn casglu’r holl ffurflenni i wneud yn siŵr bod syniadau pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn yr ymgyrch ‘Sdim Curo Plant. Diolch i chi am ei llenwi!

**Ynglŷn â rhieni yn smacio plant…**


1. Ydych chi’n meddwl y dylai rhieni gael yr hawl i smacio eu plant?



2. Ydych chi’n meddwl bod smacio plant yn stopio nhw rhag bod yn ddrwg?




3. 3. Ydych chi wedi newid eich meddwl am rieni yn medru smacio eu plant oherwydd eich gwers heddiw? Beth sydd wedi gwneud i chi newid eich meddwl?



**Ynglŷn â Hawliau Plant…**

1. Ydych chi wedi clywed am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn o’r blaen?



2. 2. Ydych chi’n meddwl bod smacio yn atal plant rhag cael eu hawliau?



**Ynglŷn â helpu rhieni i beidio â smacio eu plant…**

1. Ydych chi’n meddwl y dylai oedolion gael help fel eu bod yn medru rheoli ymddygiad eu plant heb eu smacio?




**Diolch**